PAPUR WYTHNOSOL YR ANNIBYNWYR CYMRAEG

# Y TYST

Sefydlwyd 1867 | Cyfrol 156 | Rhif 16 | Ebrill 20, 2023 | 50c.



## CARIO CROES I BEN Y BRYN

Mae pererindod y Groglith i gopa Bryn Myrddin, uwchlaw pentre Abergwili ar gyrion Caerfyrddin, bellach yn achlysur blynyddol. Daeth tua 80 o oedolion a phlant ynghyd eleni ar brynhawn heulog i 'ddringo'r mynydd' ar gyfer oedfa a drefnwyd gan y Parchg Beti-Wyn James ar ben y bryn serth, sydd wedi ei amgylchynu gan fryngaer anferth o'r Oes Haearn. Bu'r Parchg Emyr Gwyn Evans, gweinidog gofalaeth Broydd Myrddin, hefyd yn cymryd rhan yn yr oedfa fer a gynhaliwyd am 3.00. Yn ôl Efengyl Marc (15:33–8) dyma'r amser y bu Iesu farw ar groes Calfaria.

### Mynd o nerth i nerth

Yn dilyn yr oedfa, a chyfle i edmygu'r golygfeydd eang dros dre Caerfyrddin ac i fyny Dyffryn Tywi ar y fath brynhawn braf, fe ddaeth y pererinion lawr i fwynhau te yng nghanolfan ymwelwyr fferm Alltyfyrddin wrth droed y bryn.
'Mae'n braf gweld y digwyddiad hwn yn mynd o nerth i nerth gyda phobl o bob oed yn dod ynghyd i gofio'r hyn a ddigwyddodd ar fryn arall – bryn tra gwahanol, tu fas i fur y dref,' meddai'r Parchg Beti-Wyn. 'Priodol oedd canu geiriau Titus Lewis 'Mawr oedd Crist yn nhragwyddoldeb' ar yr emyn dôn Bryn Myrddin wrth i'r plant osod y groes y bu iddynt ei chario i ben y bryn yn ei lle yn atgof o aberth Iesu trosom.'



## Cwrdd Chwarter Cyfundeb Môn



Cynhaliwyd y cwrdd chwarter ar nos Fawrth, 21 Chwefror, yng Nghapel Ifan, Llannerchymedd. Yr oedd 18 yn bresennol yn cynrychioli amrywiol eglwysi'r cyfundeb. Y cadeirydd oedd y Parchg Ron Williams.

1. Wedi gair o groeso gan y cadeirydd, a diolch i swyddogion Capel Ifan am gael cynnal y cyfarfod yno, darllenodd y cadeirydd Luc 4:1–13 gan fod tymor y Grawys y dechrau drannoeth.
2. Ymddiheuriadau.
   Derbyniwyd nifer, gan gynnwys un oddi wrth yr ysgrifennydd, Mr Edward Morus Jones. Dywedwyd mai Mr Gwynfor Roberts, Ebeneser, Rhosmeirch, fyddai'n gofalu am y cofnodion yn y cyfarfod hwn, a diolchwyd iddo.
3. Cofnodion. Derbyniwyd y cofnodion fel rhai cywir.
4. Materion yn codi.
   i. Mynwent Cana, Llanddaniel. Dywedodd y cadeirydd fod y gwaith o drosglwyddo'r fynwent i ofal y cyngor wedi ei gwblhau, a hynny wedi chwe blynedd o drafod. Mynegwyd gwerthfawrogiad o ymdrechion diflino yr ysgrifennydd a'r trysorydd, Mr Bryn Mortimer-Roberts, er mwyn cael y maen i'r wal.
   ii. Nodwyd fod eglwys Bethel, Cemaes, bellach wedi ei datgorffori a bod y gwaith cyfreithiol yn mynd rhagddo. Pwysleisiodd y cadeirydd bwysigrwydd cyflawni'r

*parhad ar dudalen 2*

## Aelodau newydd



Pleser oedd derbyn Alan a Megan Jones o Benllergaer yn aelodau yn ein hoedfa gymun ar 5 Mawrth. Croeso iddynt i deulu Hope-Siloh a dymunwn bob bendith iddynt i'r dyfodol.

# GAIR AM AIR

gan Owain Llŷr Evans

## Iktsuarpok

Un rhan hen o'r hyn a aeth
Yn aros – dyna hiraeth.
James Nicholas (1928–2013)

Perthyn i bob iaith eiriau na ellid yn llwyr a llawn eu cyfieithu i iaith arall. Yn y Gymraeg mae gennym 'hiraeth'. Bu'r gyfres hon o fyfyrdodau yn ymdrin â nifer o'r geiriau rheini.

Daw'r olaf o'r Inuit: *iktsuarpok*. Gorwedd ystyr *iktsuarpok* rhywle rhwng diffyg amynedd a hir ddisgwyl. Efallai mai'r ddihareb, 'Hir yw pob aros' sydd yn crynhoi orau ystyr *iktsuarpok*. *Iktsuarpok* sydd yn eich symud i'r ffenest, dro ar ôl tro, i weld os yw'r ymwelydd hir disgwyliedig wedi cyrraedd o'r hir hir ddiwedd. Mae'r enghraifft olaf hwn yn fachyn cyfleus i osod llun gan Salvador Dalí (1904–89): *Girl standing at the Window* neu *Figure at a Window* (1925).

Aros. Mae aros – *iktsuarpok* – a gobeithio; naddu breuddwydion a hogi dyheadau yn rhan annatod o'r hyn ydym fel pobl Dduw.

*Iktsuarpok*: aros, gobeithio, dyheu, breuddwydio am gyfiawnder ... a heddwch.

Rwy'n gweld o bell y dydd yn dod
bydd pob cyfandir is y rhod
yn eiddo Iesu mawr ...
Watcyn Wyn (1844–1905, 257 C.Ff.)

Mi wn yn iawn fod cant a mil o wahanol syniadau am bwy yw hon yn y llun gan Dalí, ac am beth – neu bwy – mae hi'n aros, ond bob tro dw i'n gweld y llun hwn dw i'n meddwl am yr eglwys yn aros ... *iktsuarpok* pobl ffydd. Mae hi'n syllu dros y dŵr i'r lan. Mae hi'n canolbwyntio ar y tir pell. Mae hi'n chwilio am yr awgrym lleiaf o symud, cadarnhad fod ei hanwylyd ar ei ffordd. Mae hi'n barod. Bu hi'n barod ers yn hir. Hir bu'r aros hwn: *iktsuarpok*.




Cyfnod o aros yw'r Adfent. Cyfle i sefyll wrth ffenest agored ein ffydd, a syllu dros fôr ein cred tua'r lan fan draw – pa bryd y daw? 'O tyred di, Emanŵel,/a datod rwymau' dy bobl (emyn Lladin o'r 18fed ganrif, cyf. J. D. V. Lewis 1879–1970. 432 C.Ff.).

Syllwn drwy ffenest 'Air disglair Duw' (Graham Kendrick, cyf. Casi Jones 228 C.Ff.), dros fôr y newyddion beunyddiol, da a drwg, gan ymbaratoi i groesawu'r hwn sydd yn dod. Fe ddaw. Hir yw'r aros – *iktsuarpok* – ond fe ddaw.

Lliw'r Adfent yw glas tywyll, dwfn – union liw'r nos cyn i belydrau cyntaf y wawr sbarduno'r ceiliog i gyhoeddi gwawrio diwrnod newydd sbon. Benthycwn brofiad Watcyn Wyn yn sbardun i fyfyrdod pellach a gweddi:

Mae teg oleuni blaen y wawr
o wlad i wlad yn dweud yn awr
fod bore ddydd gerllaw;
mae pen y bryniau'n llawenhau
wrth weld yr haul yn agosáu
a'r nos yn cilio draw.

**Owain Llŷr Evans**

# Cwrdd Chwarter Cyfundeb Môn – *parhad*

gwaith hwnnw'n drylwyr ac yn ôl amodau gweithred yr eglwys. Dylai swyddogion pob eglwys, meddai, sicrhau eu bod yn gwybod ymhle mae gweithred eu capel. Dywedwyd o'r llawr nad oedd banciau bellach yn awyddus i gadw Gweithredoedd a gofynnwyd am gyngor am y man gorau i'w rhoi. Awgrymwyd gofyn i gwmnïau cyfreithwyr lleol er y byddent hwy, o bosibl, yn codi ffi.

5. Cyhoeddwyd, gyda thristwch, farwolaeth Mr Bryner Jones, diacon yn y Tabernacl, Porthaethwy ar ddydd Gwener, 17 Chwefror. Bu'n gadeirydd y cyfundeb yn 1997–98. Mynegwyd cydymdeimlad dwys â'i deulu yn eu galar, a chyhoeddwyd manylion yr angladd. Anfonwyd cyfarchion a dymuniadau da at Mr R. H. Edwards, Ebeneser, Rhosmeirch ag yntau yn yr ysbyty.
6. Ceisiadau Eglwysi am Gymorth Ariannol. Yr oedd tri chais wedi cyrraedd y trysorydd, ac wedi iddo eu gwirio yr oedd yn awgrymu cymeradwyo'r tri. Derbyniwyd ei awgrym.
7. Ffeil *Heulwen Dan Gymylau* (Eglwysi Dementia-gyfeillgar, Undeb yr Annibynwyr Cymraeg). Cafwyd adroddiad gan Mr Gwynfor Roberts, Ebeneser, Rhosmeirch, o gyfarfod Zoom yr oedd ef a'r ysgrifennydd wedi bod ynddo. Wedi rhoi amlinelliad o'r hyn a drafodwyd, dywedodd ei fod wedi cael budd o fod â rhan ynddo a'i fod wedi dysgu llawer am y cyflwr.

   Yn y drafodaeth wedyn, mynegwyd



   awydd i neilltuo cyfarfod o'r cwrdd chwarter i drafod dementia, a gofynnwyd i gynrychiolwyr yr eglwysi baratoi ar gyfer y cyfarfod hwnnw trwy ddarllen y ffeil yr oeddent eisoes wedi ei derbyn y llynedd, a bod yn barod i ymateb i'r cwestiwn, 'Beth yn y ffeil sy'n berthnasol i ni?'
8. Unrhyw Fater Arall.
   Mynegwyd cydymdeimlad diffuant â Llywydd presennol Undeb yr Annibynwyr Cymraeg yn dilyn marwolaeth ei thad yn ddiweddar.
9. Sul y Cyfundeb. Cyhoeddwyd fod Sul y Cyfundeb i'w gynnal yn Ebeneser, Rhosmeirch, ar ddydd Sul, 7 Mai 2023. Ni fydd y cadeirydd na'r is-gadeirydd (Parchg Ddr Geraint Tudur) yn gallu bod yn bresennol oherwydd ymrwymiadau eraill, ond bydd manylion y diwrnod yn cael eu cyhoeddi maes o law ac yn cael eu hanfon at yr eglwysi.

**(allan o *Llais y Tabernacl*, Porthaethwy, rhifyn y Pasg 2023)**

Yr Adran Gydenwadol

EBRILL 20 2023 RHIF 112

# Heddwch Nain / Mam-gu

Mae'r gist sy'n cynnwys llofnodion 390,296 o fenywod Cymreig yn galw am fyd heb ryfel wedi cyrraedd yn ôl i Gymru ar 5 Ebrill.

Hwyliodd y gist am America ganrif yn ôl. Roedd y boen a'r erchyllterau a brofwyd yn sgil y Rhyfel Byd Cyntaf wedi gwneud menywod Cymru'n benderfynol o geisio byd mwy teg, cyfiawn a heddychlon. Roedd y ddeiseb yn galw ar fenywod America i helpu i sefydlu Cyngres y Cenhedloedd fel ffordd o osgoi rhyfeloedd yn y dyfodol.

Yn 2016 cynorthwyodd aelodau Cymdeithas y Cymod i ffurfio 'Heddwch Mam-gu' gyda'r amcanion canlynol:

- canfod y ddeiseb a'i dychwelyd i Gymru
- ysgogi menter Cymru gyfan yn gofyn y cwestiwn: a wnaeth eich mam-gu lofnodi'r ddeiseb?
- ysbrydoli cenhedlaeth newydd o ymgyrchwyr dros heddwch.

Daethpwyd o hyd i'r ddeiseb yn Amgueddfa'r Smithsonian yn Washington, ac mae bellach wedi cael ei rhoi i Lyfrgell Genedlaethol Cymru yn barhaol.

Mae partneriaeth a arweinir gan yr Academi Heddwch wedi sicrhau nawdd drwy Lywodraeth Cymru a'r Loteri a fydd:



Archwilio'r llofnodion



Aelodau o'r ymgyrch Heddwch Nain / Mam-gu yn croesawu'r gist i'w chartref newydd yn y Llyfrgell Genedlaethol

- yn digido a chefnogi gwirfoddolwyr i drawsgrifio'r llofnodion
- cyflogi staff a fydd yn gweithio gyda chymunedau i gyfleu'r hanes ac archwilio'i berthnasedd ar gyfer ein byd heddiw sy'n dal i gael ei rwygo gan ryfel.

Dyma apêl ar ran aelodau a chyfeillion Cymdeithas y Cymod i ymuno â Heddwch Mam-gu. Mae gennym dasg hyd yn oed fwy o'n blaenau. Ar lefel y gymuned ym mhob cornel o Gymru, mae angen inni weithio gyda'n gilydd i ddod â'r stori hon o obaith a gweledigaeth i bob cartref, ysgol, canolfan gymunedol ac eglwys. Mae angen inni gofleidio pobl o wahanol ffydd yr oedd eu neiniau o bosib yn byw mewn rhannau eraill o'r byd. Fe fydd adnoddau ar gael i'n helpu i rannu ein stori a fydd yn addas i'w defnyddio yn y pulpud, mewn ysgolion a grwpiau ieuenctid, ar y cyfryngau cymdeithasol a lle bynnag y gallwch fod yn weithredol.

Bydd cael y rhaglen hon yn gweithio ochr yn ochr â gwaith y grŵp ymgyrchu Heddwch ar Waith dros y 18 mis nesaf yn ffordd effeithiol o ymgysylltu â phobl newydd, gyda'ch help chi. Gadewch inni gyfleu beth mae'n ei olygu i Gymru fod yn Genedl Heddwch. Gadewch inni herio'r filitariaeth, a'i chysylltiadau â heriau newid hinsawdd, sydd wedi ymledu i bob rhan o'n cymdeithas. A allwch chi gyfrannu tuag at greu gweledigaeth amgen ar gyfer ein cenedl?

E-bostiwch: heddwchnain.mamgu@gmail.com neu ysgrifennwch at: 10 Garreg Frech, Llanfrothen, Gwynedd LL48 6BZ

# *Rwy'n credu* –albwm newydd Cass Meurig

Casgliad o ganeuon ffydd newydd gan y gantores a'r offerynwraig Gristnogol Cass Meurig yw *Rwy'n Credu*, a lansiwyd yng ngŵyl Llanw, Llangrannog, 10–13 Ebrill.

Mae caneuon Cass yn cyfuno'r ysgrythur, caneuon gwerin a myfyrdod ar fywyd. Maent yn siarad am ffydd, cariad, llawenydd a gobaith, ac yn deillio o berthynas agos ag Iesu. Wrth iddi ffeindio ysbrydoliaeth yn ei ffydd ei hun a'i siwrne bywyd, mae Cass yn plethu adnodau o'r Beibl ac alawon Cymreig hyfryd, gan gyfeilio iddi hi ei hun yn feistrolgar ar ffidil, crwth, fiola, gitâr a phiano.

Cafodd albwm diwethaf Cass o ganeuon Cristnogol, *Taith*, ei ryddhau yng Ngŵyl Coda a bu Cass yn perfformio ar *Dechrau Canu, Dechrau Canmol* a ledled Cymru. Yn ystod cyfnodau clo Covid-19, fe wnaeth Cass ryddhau nifer o osodiadau litwrgaidd ar alawon gwerin Cymraeg ar ei Sianel Youtube. Roeddynt yn boblogaidd ar gyfer gwasanaethau ar-lein ac maent bellach yn ffefrynnau gyda chynulleidfaoedd drwy Gymru.

Bydd ffans niferus *Taith* yn caru *Rwy'n Credu*. Dyma gerddoriaeth i'r enaid.

Beth am wahodd Cass i'ch eglwys chi i gyflwyno'i chaneuon newydd?

I gysylltu â Cass, e-bostiwch: cass@cassmeurig.com

Gwefan Cass: https://cassmeurig.com




# *Y Traethodydd* yn trafod cyfieithu o ieithoedd tramor


Rhifyn arbennig ar gyfieithu o lenyddiaethau tramor i'r Gymraeg yw'r rhifyn cyfredol o'r *Traethodydd*, sef rhifyn Ebrill 2023. Mae'n cynnwys tair ysgrif gynhwysfawr gan awduron iau, ynghyd â rhagymadrodd yn adrodd cefndir y rhifyn sy'n deillio o gynhadledd academaidd a gynhaliwyd ym Mangor ym Mehefin 2021.

Awdur yr ysgrif gyntaf yw Rhiannedd Jewell o Brifysgol Aberystwyth. Mae'n trafod yr ymgeisiadau a wnaed yn y gorffennol i drosi gweithiau'r dramodydd o'r Eidal Luigi Pirandello, yn neilltuol ei ddrama enwog 'Tri Chymeriad yn Chwilio am Awdur'. Yr academydd T. Gwynfor Griffiths oedd cyfiethydd y fersiwn cyntaf, yna'r nofelydd Emyr Humphreys, ac ar ei ôl yr awduron o Fangor, Dyfnallt ac Eleri Morgan. Dyma ysgrif hynod ddisglair ar ddulliau cyfieithu a'r problemau sydd ynghlwm â'r dasg.

Hannah Samms o Brifysgol Abertawe biau'r ail ysgrif. Mae hi'n gofyn y cwestiwn diddorol p'un a yw dramâu Aled Jones Williams mor unigryw eu Cymreigrwydd fel nad oes modd eu trosi o gwbl i ieithoedd eraill. Y gwir yw fod rhai o'i ddramâu *wedi'u* trosi, sy'n herio teitl yr ysgrif: 'Aled Jones Williams: Anghyfieithadwy?'

Yn y drydedd ysgrif mae Elen Ifan o Brifysgol Caerdydd yn disgrifio ac yn dadansoddi'r gweithiau cerdd o ieithoedd tramor a fu'n gymaint rhan o arlwy'r Eisteddfod Genedlaethol ar hyd y blynyddoedd. Ac yn yr ysgrif ragymadroddol mae Helena Miguelez-Carballeira, yr ysgolhaig ifanc o Brifysgol Bangor, yn ymuno â Rhiannedd Jewell a Hannah Samms i gyd-destunoli'r cyfan ac i drafod holl fater perthynas llên gyfoes Gymraeg a'r ieithoedd tramor. Dyma wledd o rifyn sylweddol a difyr.

Anogwn bawb sy'n ymddiddori ym mhethau gorau'r diwylliant cenedlaethol nid yn unig i ddarllen y rhifyn hwn o'r *Traethodydd*, ond i'w brynu a'i archebu. Gellir gwneud hynny trwy gyfrwng y wefan www.ytraethodydd.cymru. Dilynwch ni hefyd ar Drydar ac ar Facebook. Y golygydd yw'r Dr D. Densil Morgan (d.d.morgan@pcdds.ac.uk),




Y Gilfach, Ffordd y Gogledd, Llanbedr Pont Steffan, SA48 7AJ. Am fanylion ynghylch ei archebu, cysylltwch â Joanna Thomas-Wright (joanna.thomas-wright@ebcpcw.cymru), Swyddfa Eglwys Bresbyteraidd Cymru, 81 Heol Merthyr, Yr Eglwys Newydd, Caerdydd, CF14 1DD.

ADNABOD

Cymeriadau'r Hen Destament

ABRAHAM

Cyfres o astudiaethau gan y Parch. Meirion Morris ar gyfer grŵp neu unigolion; gellir eu defnyddio ochr yn ochr â'r gyfrol *Dehongli Bywyd Abraham* gan Gareth Lloyd Jones.

## 20 Cyfamod – enw a phobl

### Darllen: Genesis 17:1–8

Yn ystod yr astudiaethau hyn ar fywyd Abraham fe ddylech fod yn sylwi erbyn hyn fod yna elfen o ailadrodd. Yn wir, i rywun sy'n darllen y testun yn Genesis yn weddol arwynebol, gellid edrych heibio ambell ddarn. Yn naturiol, gan mai hwn yw llyfr cyntaf y Beibl, mi fyddem yn disgwyl bod y gwirioneddau sylfaenol yn cael eu pwysleisio. Fel un sy'n hoff iawn o wylio rhaglenni ditectif, yr wyf wedi dysgu y dylid cymryd sylw manwl iawn o'r cyflwyniad, y munudau agoriadol, gan fod deall beth ddaw, a sut y mae'r stori yn gorffen, yn aml yn mynd â ni yn ôl i'r golygfeydd agoriadol. Yn rhagluniaeth Duw y mae gennym y Beibl, un llyfr, ac mae llawer i'w ddweud o blaid ei ddarllen felly. Mae'r un llyfr yma ag un gwrthrych – Duw ei hun; llyfr am Dduw yw hwn, ac er bod yna lawer sy'n sôn am bobl ynddo, yn y llyfr yma dylid darllen y cyfan gyda golwg ar yr hyn a ddywed am Dduw, ac am y ffordd y mae Ef yn dod i berthynas â phobl. Dyma air Duw i fyd Duw, ac yn y tudalennau fe gawn olwg ar oblygiadau hyn, cael golwg ar yr hyn y mae ffydd yn Nuw yn ei olygu yn ymarferol.

Yn Genesis 17 mae Duw yn manylu ar y cyfamod a wnaeth ag Abraham yn ei alwad ym mhennod 12, a'r addewid cyfamodol ym mhennod 15. Mae hynny hefyd yn adeiladu ar y cyfamod a wnaed â Noa ym mhennod 8, lle y cawn addewid cyfamodol i warchod y greadigaeth. Ond yn y cyfamod â Noa, mae yna gydnabyddiaeth nad oedd calon dyn wedi newid: "Ni felltithiaf y ddaear mwyach o achos dyn, er bod gogwydd ei feddwl yn ddrwg o'i ieuenctid." Yn wir, mae hanes Babel yn cadarnhau hynny. Felly, fel yng ngweddill y Beibl, hanfod a sicrwydd y cyfamod yw gwaith Duw, yr hyn y mae Ef yn bwriadu ei gyflawni. Os oedd yr addewid i Noa yn addo gwarchodaeth dros bob cenedl, mae'r addewid i Abraham yn addo presenoldeb gyda'r un genedl, yr un genedl fyddai'n cynnwys pobl o bob cenedl, plant Abraham. Sylwch er enghraifft ar hyn yn Genesis 17: 6–8. Yr wyf wedi rhoi rhai geiriau mewn print trwm er mwyn ein cynorthwyo i ddeall hyn:

> **Gwnaf** di'n ffrwythlon iawn; a **gwnaf** genhedloedd ohonot, a daw brenhinoedd allan ohonot. **Sefydlaf** fy nghyfamod yn gyfamod tragwyddol â thi, ac â'th ddisgynyddion ar dy ôl dros eu cenedlaethau, i fod yn Dduw i ti ac i'th ddisgynyddion ar dy ôl. A **rhoddaf** y wlad yr wyt yn crwydro ynddi, sef holl wlad Canaan, yn etifeddiaeth dragwyddol i ti ac i'th ddisgynyddion ar dy ôl, a **byddaf** yn Dduw iddynt.

Mae'r cymal olaf yn adnod 8, yn ôl yr esboniwr Derek Kidner, yn gwbl allweddol. Iddo ef, dyma yw'r cyfamod: yr addewid o'r nefoedd y bydd Duw yn Dduw i'r bobl yma. Er bod yna addewidion lu, yr addewid yw fod Duw yn galw pobl, a bydd Ef ei hun yn Dduw iddynt, ac fel y gwelwn, ar waethaf eu crwydro a'u cefnu, ni fydd Duw yn crwydro oddi wrth ei air, nac yn cefnu arno. Dyma'r llinyn a welir, er enghraifft, yn Exodus 6:7: "Fe'ch cymeraf yn bobl i mi, a byddaf finnau yn Dduw i chwi" ac yn Exodus 33:14: "Byddaf fi fy hun gyda thi, a rhoddaf iti orffwysfa." Mae'r un peth yn cael ei bwysleisio yn 2 Samuel: "Sicrheaist ti dy bobl Israel i fod yn bobl i ti hyd byth; a daethost tithau, O ARGLWYDD, yn Dduw iddynt hwy", ac ar ei orau yn Datguddiad 21:3: "Clywais lais uchel o'r orsedd yn dweud, 'Wele, y mae preswylfa Duw gyda'r ddynoliaeth; bydd ef yn preswylio gyda hwy, byddant hwy yn bobloedd iddo ef, a bydd Duw ei hun gyda hwy, yn Dduw iddynt."

O ran yr adnodau, sylwch yn adnod 1, ar ôl 13 blynedd mae Abraham yn cael profiad arbennig eto o bresenoldeb Duw. Er ei fod yn gyfaill Duw, yn cerdded gyda Duw, yn ymddiried yn Nuw, mae'r testun am dynnu ein sylw at yr eithriadau hyn, Duw yn siarad mewn ffordd arbennig. Mae'r her yn un syml: "Rhodia ger fy mron a bydd berffaith." Nid bod hwn yn air newydd: dyna wnaeth Enoch yn 5:22 a dyma Noa yn 6:9. Wedi galw ar Abraham i ymateb yn briodol, mae Duw am ddatguddio'r mwy sydd ganddo ar ei gyfer. Y mae wedi ei alw, mae wedi addo'i wneud yn dad i genedl, ond yn awr, bydd yn dad i lu o genhedloedd. Mae'r allwedd yn yr enw newydd, Abram – tad llawer, Abraham – tad llawer o genhedloedd. Gyda'r addewid, mae'r bobl yma, o bob cenedl, yn mynd i fod yn un genedl frenhinol, ac yr ydym yn gwybod yn dda am y brenhinoedd hynny ddaeth, ond yn fwy na hynny am y Brenin ddaeth. Fe sylwch ar hyn yn y rhestr o genedlaethau Iesu yn Mathew 1. Ar y dechrau cawn yr ymadrodd: "Dyma restr achau Iesu Grist, Mab Dafydd, mab Abraham." Fel roeddwn yn sôn ar y dechrau, mae Genesis yn rhagymadrodd ac yn allwedd i ddeall yr hyn a wyddom yn awr am Iesu, yr Un sydd wedi ei orseddu ar ddeheulaw Duw, yn Frenin tragwyddol, yn unol â'r addewid i Dafydd yn Salm 110:1: "Eistedd ar fy neheulaw, nes imi wneud dy elynion yn droedfainc i ti" a'r sylweddoliad yn Marc 16:19: "Felly, wedi iddo lefaru wrthynt, cymerwyd yr Arglwydd Iesu i fyny i'r nef ac eisteddodd ar ddeheulaw Duw."

1. Mae Genesis yn pwysleisio bod Duw yn Dduw sy'n rhoi dechrau newydd, a hynny yn aml yn hanes ei blant. Rhannwch rywfaint o'r dechrau newydd a'r dechreuadau newydd yn eich profiad chi.
2. Yr addewid yn y Beibl yw'r addewid y bydd Duw yn Dduw ei bobl. Dyma sicrwydd y cyfamod yma gydag Abraham, a'r cyfamod â ni yn Iesu. I ba raddau y byddwch yn dibynnu ar hyn o ddydd i ddydd, yn enwedig mewn 'amser adfyd'?
3. Sut mae gwybod bod Iesu wedi ei orseddu yn effeithio ar eich bywyd fel unigolyn, ac ar fywyd eich eglwys?

S4C

*Dechrau Canu, Dechrau Canmol*

**Sul, 23 Ebrill** – Dim rhaglen

BBC radio cymru

*Caniadaeth y Cysegr*

**Sul, 23 Ebrill, am 7:30yb a 4:30yp**

Rhaglen yn trafod perthnasau sydd wedi cyfrannu tuag at ein hemynyddiaeth

**Sul, 23 Ebrill, am 12:00yp**

Oedfa dan arweiniad Fiona Gannon, Clydach

I weld y cyhoeddiad digidol *Cenn@d* yn llawn, dilynwch y ddolen hon: www.cennad.cymru

(Cyhoeddir *Cenn@d* ar ran Undeb Bedyddwyr Cymru ac Eglwys Bresbyteraidd Cymru, a rhennir tudalennau cydenwadol y cyhoeddiad ag Undeb yr Annibynwyr Cymraeg)

# Cuddio yn y cysgod

Petaech am enwi un o arweinwyr mawr Cristnogol hanes Cymru sydd wedi dylanwadu arnoch, pwy fyddech yn ei (h)enwi? Un o f'arwyr Cristnogol i yw dyn a effeithiodd yn aruthrol ar Gymru gyfan, ar Loegr, ond yn arbennig ar ogledd-ddwyrain Cymru. Roedd William Williams o'r Wern yn weinidog gyda'r Annibynwyr, yn bregethwr godidog, yn weinidog gofalgar, yn ddyn gweddi ac yn anogwr i'r genhedlaeth iau. Defnyddiodd yr Arglwydd ei bregethu i ddod â llu o farwolaeth i fywyd, ac fe gafodd ei fendithio wrth iddo blannu nifer o eglwysi a chodi arweinwyr a diaconiaid ffyddlon yn yr eglwysi hynny.

Weithiau mae'n dda treulio amser gyda'r mawrion. Yn y cyfnod hwn o ddirywiad mewn amryw o'n heglwysi, mae'n bleser mynd â mi fy hun yn ôl i ddiwedd y ddeunawfed ganrif ac i ddechrau'r bedwaredd ganrif ar bymtheg, i gael bod yn ddisgybl i'r dyn hwn sy'n cael ei ystyried (ynghyd â John Elias a Christmas Evans) yn un o dri chawr pulpudau Cymru.



### Catherine Williams

Efallai eich bod yn gwybod am Williams a'r ffordd y defnyddiodd Duw ef er gogoniant i Grist, ond wyddoch chi am Catherine, ei chwaer? Wnaeth hi erioed bregethu'r bregeth, wnaeth hi ddim arwain dosbarth ysgol Sul ac ni theithiodd hi'r wlad yn pregethu i filoedd. Eto, cafodd effaith fawr ar y genedl drwy ei ffyddlondeb i'w Gwaredwr. Sut?

Pan ddechreuodd ei brawd William deimlo ei fod yn clywed galwad Duw i wasanaethu fel gweinidog, deallodd ei angen am addysg a hyfforddiant. Ond fel mab i fferm, fe'i cafodd hi'n anodd iawn cael amser i ddarllen, gweddïo a myfyrio ar yr Ysgrythur. Daeth yr ateb i'r broblem hon drwy anhunanoldeb ac ymroddiad Catherine. Felly 'byddai William yn mynd â'i Feibl a'i ddeunyddiau astudio gydag ef i fan unig, lle na allai ei dad ei weld; a byddai ei chwaer Catherine, a oedd wedi ymuno â'r eglwys yr un pryd ag ef, yn rhedeg ar unwaith i wneud unrhyw ddyletswyddau angenrheidiol fel bod ganddo amser i astudio'i lyfr.'

### Gweithwyr

Mae angen pobl fel William Williams arnom yng Nghymru heddiw, i bregethu'r Efengyl yn rymus ac i blannu eglwysi mewn dinasoedd, trefi ac ardaloedd gwledig lle nad oes fawr o dystiolaeth i'r Efengyl, os o gwbl. Yn wir, gadewch i ni weddïo am lawer fel ef, a aberthodd yn fawr i gyhoeddi Crist lle nad oedd unrhyw un yn Ei adnabod cyn hyn. Dylem hefyd weddïo am ddynion a menywod fel Catherine. Nid oes llyfrau amdani, nid oes cerflun na phlac i'w chofio, ac eto drwy ei gwaith yn bwydo, dyfrio a gofalu am yr anifeiliaid er mwyn i'w brawd gael astudio, fe wasanaethodd yr Arglwydd yn ffyddlon.

### Gwaith i bawb

Hyd yn oed os nad ydym ni ein hunain, fel Williams, yn cael ein galw i bregethu, i blannu eglwysi a meithrin Cristnogion ifanc, nid yw hyn yn golygu nad oes gennym ran yn y gwaith. Wnawn ni weddïo? Wnawn ni gyfrannu? Wnawn ni weithio i gefnogi'r rhai sy'n cael eu galw'n llawn amser i waith yr efengyl? Wnawn ni annog y genhedlaeth nesaf a'u cefnogi i gael hyfforddiant?

Gadewch i ni weddïo y bydd Duw yn codi gweithwyr ffyddlon fel William a Catherine i Gymru heddiw. Gweddïwn y byddwn yn gweld ffrwyth yr efengyl, fel y gwnaethant hwy; y byddwn yn gweld eglwysi'n cael eu plannu; dynion, menywod a phlant yn cael eu hachub; ac y byddem yn gweld yr Oen yn cael y Clod sy'n ddyledus Iddo.

**Rhun Murphy, Wrecsam**

*The great preachers of Wales*, Owen Jones, Newtown (Passmore & Alabaster 1885) [fy nghyfieithiad i]

# Cwrdd Chwiorydd De Ceredigion

Daeth nifer o wragedd o eglwysi'r Annibynwyr sef eglwysi Bryngwenith, Glynarthen, Maenygroes, Nanternis, Tabernacl Pencader, Capel Mair Aberteifi, Seion Llandysul, Bwlchygroes, Llandysul, Saron Llangeler, Pisgah, Talgarreg, Capel y Wig Llangrannog, Capel Pantycrugiau Plwmp a rhai eraill i fod yn rhan o'r gweithgarwch pwysig hwn. Yn y cyfarfod fe gafwyd darlleniad o'r ysgrythur, emynau, gweddi, a threfnu lleoliad nesaf y cyfarfod ym mis Medi sef Pisgah, Talgarreg. Pryd hynny byddwn yn trosglwyddo arian at achosion da yn lleol. Y tro hwn roeddem yn dysgu'r grefft o ysgrifennu caligraffi sef yr ysgrifen hardd a chain a geir yn fynych ar dudalennau dechreuol llyfrau emynau a Beiblau. Yn ein harwain ni yn y grefft roedd dwy o Bwlchygroes, Sir Benfro, sef Sharon Harries gyda chymorth Gwenda Savins. Cafwyd llinell o Emyn David Charles 1803–80, 'Diolchaf am dy gariad cu yn estyn hyd fy oes. Diolchaf fwy am Un a fu yn gwaedu ar y groes,' fel testun i'w hysgrifennu. Gofynnwyd i ni geisio ei hysgrifennu yn debyg i'r esiampl a roddwyd i ni, gan ddefnyddio teclynnau arbennig i ysgrifennu.

Ddwywaith y flwyddyn y byddwn yn cyfarfod a bydd y sesiynau'n amrywio o estyn gwahoddiad i rywun siarad neu arddangos eu gwaith. Y tro diwethaf cawsom hanes blodau yn y Beibl a'r modd y gellir arddangos blodau gyda negeseuon Beiblaidd mewn achlysuron arbennig yn ystod y flwyddyn.

Daeth cynrychiolaeth dda ryfeddol at ei gilydd a chafwyd noson fendithiol, gydag aelodau eglwys Bryngwenith yn estyn y croeso drwy luniaeth ysgafn ar ddiwedd y noson gyda chymorth amrhisiadwy Elonwy James. Brenda Jones fu'n gwasanaethu wrth yr offeryn, cymerwyd rhan gan Jillian Jones ac Anne Lewis.

**Carys Ann**
*Cadeirydd Cwrdd Chwiorydd De Ceredigion*

## Barn Annibynnol

# ‘Rhyfel, a sôn am ryfel ...’

*Mair:* Dwi’n gweld bod mwy o dancia’r Gorllewin wedi cyrraedd Wcráin. Gobeithio mai blwyddyn y fuddugoliaeth fydd hon, fel meddai Zelensky.

*Meurig:* Sut gall Cristion edrych ymlaen at ragor o ymladd? ‘Rho dy gleddyf yn ôl yn ei le!’ meddai Iesu wrth Pedr yng Ngethsemane pan ddaeth y fintai i’w arestio.

*Mair*: Gwir, ond roedd Iesu’n barod i aberthu ei fywyd ar y groes. Wyt ti’n disgwyl i holl bobol Wcráin aberthu eu rhyddid a’u bywyda i drais Putin? Mae gan bawb hawl i’w hamddiffyn eu hunan, siawns. Mae Putin am ddinistrio llywodraeth, iaith a diwylliant Wcráin am byth.

*Meurig:* Efalle pe bai Wcráin ddim wedi dewis ymladd fydde Putin ddim mor greulon wrthyn nhw. Beth bynnag, o’n i’n meddwl dy fod di yn erbyn y fasnach arfe.

*Mair*: Bob amser! Mae’n anfoesol gwneud elw mawr trwy werthu awyrenna ac ati i wledydd gormesol fel Sawdi a Qatar. Ond nid gwerthu tancia a gynna mawr er mwyn elw rydan ni rŵan ond helpu’r Wcrainiaid i atal llaw y treisiwr.

*Meurig:* Dyna’r ddadl gei di yn America, ynte? ‘Yr unig ateb i ddyn drwg gyda dryll yw dyn da gyda dryll.’ A mwy byth o dywallt gwaed. Cofia eirie Iesu eto: ‘Carwch eich gelynion, a gweddïwch dros y rhai sy’n eich erlid.’

*Mair:* Digon hawdd deud hynna pan nad oes ’na ddim taflegra’n disgyn ar eich pen. Roedd hyd yn oed Iesu’n gorfod tynnu’r llinell yn rhywle. Pwy luchiodd y cyfnewidwyr arian allan o dir y Deml pan o’n nhw’n tresmasu ar dir Duw – yn gorfforol! Cofia mai Rwsia ddechreuodd y rhyfel ’ma.

*Meurig:* Dyw dwylo’r Gorllewin ddim yn lân, chwaith. Mi fu NATO’n ehangu’n gyson tua’r dwyrain nes bod y Rwsiaid yn teimlo eu bod nhw’n cael eu bygwth. Yn ofni bydde NATO’n ymosod arnyn nhw trwy Wcráin.

*Mair:* Ond nid NATO oedd yn dewis ehangu. Y gwledydd fel Pwyl a’r Baltics oedd yn gofyn am gael ymuno â NATO, fel Sweden a’r Ffindir y llynedd. Pam, tybed? Am fod ofn Rwsia arnyn nhw.

*Meurig:* Doedd dim rhaid i NATO eu derbyn nhw’n aelode!

*Mair:* Wel, nac oedd. Ond ’tasa’r gwledydd Baltig heb ymuno â NATO does gen i ddim amheuaeth y basa Putin wedi ymosod arnyn nhw a’u llyncu fel mae’n trio’i wneud yn Wcráin. Ail-greu ffinia’r hen Undeb Sofietaidd, dyna freuddwyd Putin. Edrycha sut mae o wrthi rwan yn symud miloedd o blant o’r Wcráin i leoedd ar draws Rwsia. Eisio diwreiddio cenedl Wcráin mae o.

*Meurig:* Beth bynnag, y cwestiwn pwysica nawr yw sut mae rhoi pen ar y drychineb. Mae’r ymladd wedi lladd rhyw 150,000 o bobol a chreu argyfwng economaidd o gwmpas y byd. Nid anfon mwy o arfe draw i faes y gad yw’r ateb, mae’n siŵr. Arllwys olew ar y tân yw hynny. Trafod o amgylch y bwrdd yw’r unig ffordd, cael y ddwy ochr i lofnodi cytundeb heddwch.

*Mair:* Ond heddwch ar delera pwy? Iawn, yn y pen draw bydd rhaid i’r ddwy ochr arwyddo rhyw gytundeb, dwi’n cytuno. Ond basa’ cadoediad heddiw’n gadael y bumed ran o wlad Wcráin yn nwylo Rwsia. Buddugoliaeth i’r treisiwr! Esiampl erchyll i weddill y byd.

*Meurig:* Ond wrth drafod â’i gilydd mi alle’r ddwy wlad ddod i gyfaddawd. Cyfnewid tir, efalle. Rhoi’r Crimea i Rwsia, rhoi’r tiroedd eraill ’nôl i Wcráin, o bosib. Ond heb ddechre trafodaethe does wbod beth sy’n bosib.

*Mair:* Mae gen ti fwy o ffydd yng ngair Putin na fi! Yr unig ffordd i orffen y rhyfel yn fy marn i ydi gyrru milwyr Rwsia allan o wlad Wcráin. Ac i wneud hynna mae angen mwy o arfa ar Zelensky. Cofia, penderfyniad un dyn oedd lansio’r rhyfel ’ma, y dyn fedra ddod ag o i ben yfory nesa trwy stopio ei filwyr ei hun. Ac mae hwnnw’n eistedd yn y Kremlin.

*Meurig:* Ar y pwynt yna o leia, mi allwn ni gytuno!

**Robat Powell**

(Nid yw cynnwys y Barn Annibynnol o reidrwydd yn adlewyrchu safbwynt Undeb yr Annibynwyr na’r tîm golygyddol.)



## Penderfyniadau 2023

Cyfarfodydd Blynyddol Cyfundeb Dwyrain Dinbych a Fflint, Mehefin 28–30.

Bydd cyfle i gyflwyno penderfyniadau i’r Gynhadledd a dylai rhybudd o bob penderfyniad, wedi ei lofnodi gan y cynigydd a’r eilydd, gyrraedd yr Ysgrifennydd Cyffredinol erbyn dydd Llun, **15 Mai 2023,** fan bellaf.

## Y Rhaglen Arloesi a Buddsoddi

Dyddiad cau cyflwyno ceisiadau am nawdd y rhaglen uchod y tymor hwn yw **28 Ebrill 2023**.

*Erthyglau, llythyrau at y Prif Olygydd:*
Y Parchg Ddr Alun Tudur
39 Dorchester Avenue, Pen-y-lan,
Caerdydd, CF23 9BS
*Ffôn:* 02920 490582
*E-bost:* aluntudur@btinternet.com

*Golygyddion*
Y Parchg Iwan Llewelyn Jones
Fronheulog, 12 Tan-y-Foel,
Borth-y-gest, Porthmadog, Gwynedd,
LL49 9UE
*Ffôn:* 01766 513138
*E-bost:* IwanLlew@aol.com

Alun Lenny
Porth Angel, 26 Teras Picton
Caerfyrddin, Sir Gâr, SA31 3BX
*Ffôn:* 01267 232577 /
0781 751 9039
*E-bost:* alunlenny@hotmail.co.uk

*Archebion a thaliadau i'r Llyfrfa:*
Tŷ John Penri, 5 Axis Court, Parc
Busnes Glanyrafon, Bro Abertawe
ABERTAWE SA7 0AJ
*Ffôn:* 01792 795888
*E-bost:* undeb@annibynwyr.cymru

*Dalier Sylw!*
Cyhoeddir yr Adran Gydenwadol gan Bwyllgor Llywio'r Adran Gydenwadol ac nid gan Undeb yr Annibynwyr Cymraeg. Nid oes a wnelo Golygyddion *Y Tyst* ddim â chynnwys yr Adran Gydenwadol.

# Hwyl y ŵyl

Yn ystod gwyliau'r Pasg, fe gynhaliwyd Clwb Plant/Kids Club yn Saron, Creunant a hynny ar gyfer plant ysgolion cynradd. Cafodd y plant hwyl yn crefftio, yn chwarae gemau a chwilio am wyau Pasg!

## Syniadau Pasg

Gwyddom fod cynnal cymuned mewn capel mor bwysig. Dyna yn union beth sy'n digwydd yn eglwys fach, Saron Creunant. Nid oes rhaid cael eglwys fawr er mwyn datblygu cymuned o addolwyr selog, llawen a ffyddlon. Yma y lluniau fe welwch gwragedd ein Clwb Crefft sydd wedi bod yn dylunio cardiau a chreu cywion bach a werthwyd yn ein Brecwast Capel ar Sadwrn 2 Ebrill. Maent wedi cael amser llawen pob wythnos a diol







# Dymuniadau da



*Yn y llun gweler y rhai fu'n cymryd rhan yng nghwrdd ymadawol Llunos ym Mlaenannerch ym mis Mawrth*

Dymuniadau gorau i'r Parchedig Llunos M. Gordon ar ei hymddeoliad. Er bod Llunos wedi bod yn gweinidogaethu gyda'r Presbyteriaid ers 7 mlynedd ym Mlaenannerch, Ceredigion a'r cylch, mae hi'n ffyddlon ac yn gefnogol i holl waith Undeb yr Annibynwyr Cymraeg.

**Undeb yr Annibynwyr Cymraeg**

## SWYDDOG GWEINYDDOL

**RHAN-AMSER**
**14 AWR YR WYTHNOS**

Cyfle cyffrous i fod yn rhan o dîm blaengar sy'n gweinyddu Undeb yr Annibynwyr Cymraeg.

A ydych yn meddu'r sgiliau i ddarparu a datblygu strwythurau gweinyddol i'r Undeb?

Os felly, rydym yn awyddus i glywed gennych.

I gael pecyn gwybodaeth ymgeiswyr
neu
sgwrs anffurfiol am y swydd,
cysylltwch â'r
Ysgrifennydd Gweinyddol,
Tŷ John Penri,
5 Axis Court, Parc Busnes Glanyrafon,
Bro Abertawe, ABERTAWE. SA7 0AJ

Ffôn: 01792-795888
E-bost: undeb@annibynwyr.cymru

**Dyddiad cau: 28 Ebrill 2023**

*Cyhoeddwyd gan Undeb yr Annibynwyr Cymraeg ac argraffwyd gan Serol Print, Uned 13, Ystad Ddiwyd. Heol Milland, Castell-nedd, SA11 1NJ. Cofrestrwyd yn y Swyddfa Bost.*